Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Ministry of Justice

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun gweithredu glasbrint troseddwyr benywaidd

**Mae gwell partneriaeth rhwng y gwasanaethau datganoledig a'r rhai sydd heb eu datganoli er mwyn sicrhau cyfiawnder yng Nghymru yn flaenoriaeth a rennir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.**

| Maes Thematig | Argymhelliad (carreg filltir) | Cam(au) yn cynnwys: | Amserlen ddiweddaraf | Y diweddaraf |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraethu a System Gyfan** | Rhoi trefniadau llywodraethu ar waith sy'n galluogi'r Rhaglen Menywod mewn Cyfiawnder i gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth yn effeithiol ac arwain datblygiad mentrau newydd. | • Datblygu Briff ar y Rhaglen Menywod mewn Cyfiawnder a choncordat cenedlaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Troseddwyr Benywaidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod haf 2018).<br>• Manteisio ar arbenigedd Grŵp Menywod mewn Cyfiawnder Cymru Gyfan wrth sefydlu partneriaethau a chyfarfodydd rheoli contractau, a grwpiau gorchwyl a gorffen i yrru'r camau perthnasol yn eu blaenau, gan gynnwys ymgysylltu â menywod sydd wedi cael profiad o'r system gyfiawnder.<br>• Creu cysylltiadau â byrddau lleol ledled Cymru i helpu i'w roi ar waith. | Tymor byr (31.12.20) | **CWBLHAWYD**<br>• Cynhyrchwyd a chymeradwywyd Briff y Rhaglen Menywod mewn Cyfiawnder gan Fwrdd Menywod mewn Cyfiawnder Cymru Gyfan ym mis Ebrill 2019.<br>• Mae'r tîm glasbrint wedi cyfrannu at ddatblygu Concordat Cenedlaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (a gyhoeddwyd ar 23 Ionawr 2021) i sicrhau bod cyd-destun cyflawni Cymru yn cael ei ystyried. Cynhaliwyd adolygiad i sicrhau bod uchelgeisiau'r Glasbrint yn cyd-fynd â'r Concordat. Yng Nghymru, cytunwyd y bydd uchelgeisiau Concordat yn cael eu cyflawni drwy'r Glasbrint.<br>• Sefydlwyd trefniadau llywodraethu, trosolwg a chyflawni effeithiol ar gyfer y prosiect Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd ym mis Tachwedd 2019. Mae'r Glasbrint yn cael ei ddarparu drwy 6 ffrwd waith unigol. Mae gweithgarwch y ffrwd waith yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Prosiect y Glasbrint, sy'n cyd-fynd â'r Bwrdd Menywod mewn Cyfiawnder Cymru Gyfan.<br>• Mae model cynnwys wedi'i gynhyrchu i lywio'r dull o ymgysylltu â menywod sydd â phrofiad o'r system gyfiawnder wrth ddylunio'r hyn y gellir ei gyflawni yn y Glasbrint.<br>• Cynrychiolir y Byrddau Cyfiawnder Troseddol ym Mwrdd Menywod mewn Cyfiawnder Cymru Gyfan. Lluniwyd cynllun cyfathrebu i barhau i gryfhau cysylltiadau â byrddau lleol, i'w weithredu o fis Chwefror 2021. |
| | Sefydlu protocolau a galluogwyr ar gyfer rhannu gwybodaeth a fydd yn cynorthwyo cyflenwi Dull System Gyfan ym mhob cam o'r System Cyfiawnder Troseddol. | • Amlygu cyfleoedd i ddefnyddio galluogwyr technolegol i ddatblygu seilwaith sy'n sicrhau y rhennir gwybodaeth mewn modd effeithiol ar draws sefydliadau i sicrhau bod menywod yn cael eu rheoli, eu goruchwylio a'u cynorthwyo'n effeithiol.<br>• Archwilio opsiynau ar gyfer datblygu pasbort cymorth a allai aros gyda'r fenyw ar ei thaith drwy'r System Cyfiawnder Troseddol.<br>• Datblygu a chyflwyno cytundebau rhannu gwybodaeth sy'n cydymffurfio â WASPI yn ôl yr angen. | Tymor hir (31.03.23) | • Mae tîm y Glasbrint wedi dechrau ymgysylltu â rhaglen y System Ddata Amlasiantaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Troseddwyr (NOMADS), er mwyn nodi cyfle i ystyried anghenion menywod wrth gynllunio'r system rheoli achosion traws-sector hon ar y we.<br>• Gweithgarwch i archwilio opsiynau ar gyfer datblygu pasbort cymorth a fydd yn dechrau ym mis Mai 2021.<br>• Cynhyrchwyd Protocol Rhannu Gwybodaeth WASPI ar gyfer Dull System Gyfan Braenaru Merched (WSA) a Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 yn Ne Cymru a Gwent. |
| | Adolygu gwasanaethau i fenywod sy'n cyflawni Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn y System Cyfiawnder Troseddol i sicrhau eu bod yn bodloni eu hanghenion penodol ac nad ydynt yn ailadrodd y rhai a gynigir i droseddwyr gwrywaidd. | • Gweithio gyda thimau VAWDASV i gynnal ymarfer cwmpasu i fapio'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i fenywod euog ym mhob cam o'r System Cyfiawnder Troseddol (gan gynnwys ymyrraeth gynnar ac atal, gwasanaethau cymunedol a'r rhai sy'n cwblhau dedfryd o garchar). | Tymor canolig (31.03.22) | • Mae'r argymhelliad hwn wedi'i drosglwyddo i faes thema Dedfrydu Cymunedol.<br>• Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i fapio'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer menywod sy'n cyflawni VAWDASV a nodi argymhellion/cyfleoedd i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau. |
| | Datblygu Cynllun Cyfathrebu a deunyddiau i gynorthwyo gyda rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o waith y rhaglen wrth symud ymlaen. | • Cyhoeddi Glasbrint a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Troseddwyr Benywaidd.<br>• Datblygu a chyflenwi cynllun digwyddiad Cynhadledd Menywod mewn Cyfiawnder ar y cyd â Clinks, PRT a Chyfiawnder Cymunedol Cymru.<br>• Gweithio mewn partneriaeth â darparwr llwyddiannus Dull System Gyfan Braenaru'r Merched a Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 i ddatblygu cyfres o ddeunyddiau cyfathrebu i roi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid ynghylch yr hyn a gyflwynir. | Tymor byr (31.12.20) | **CWBLHAWYD**<br>• Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu'r Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd ym mis Mai 2019.<br>• Cynhaliwyd 'Uwchgynhadledd Gwneud Pethau'n Wahanol: Cefnogi Menywod i Droi Cefn ar Droseddu' ar 10 Hydref 2019. Cofnodwyd y themâu allweddol a'r hyn a ddysgwyd o'r digwyddiad i helpu i lywio'r dull o gyflwyno'r Glasbrint.<br>• Cynhyrchwyd deunyddiau cyfathrebu ar gyfer Dull System Gyfan Braenaru Merched a Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25. Cynhaliwyd nifer o sesiynau/digwyddiadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol i godi ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth gan gynnwys: ymweliad rhithwir â'r Gwasanaeth gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip Jane Hutt AS (17.12.20); a Digwyddiad Gweminar Blwyddyn yn Ddiweddarach i bartneriaid (14.01.21). |
| **Ymyrraeth gynnar ac atal** | Bwrw ymlaen ag argymhelliad y Gwerthusiad o'r Cynllun Arallgyfeirio Braenaru Merched (Prifysgol De Cymru, 2017) i roi Mentrau Arallgyfeirio ar waith i fenywod ledled Cymru. | • Cyflwyno arallgyfeirio yn raddol trwy'r Model Darparu Gwasanaethau Dull System Gyfan Braenaru Merched ar draws De Cymru a Gwent, a'r Model Checkpoint ar draws Dyfed Powys a Gogledd Cymru.<br>• Gosod opsiynau cyson ar gyfer penderfyniadau y tu allan i'r llys i fenywod ledled Cymru, gan gynnwys mecanwaith ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau o fentrau arallgyfeirio lleol.<br>• Gweithio gyda'r holl ddarparwr gan gynnwys rhai statudol, anstatudol, comisiynwyr a'r sector gwirfoddol i archwilio'r amrywiaeth lawn o gyllid, polisïau a phrosesau ac amlygu ffyrdd o atal ac ymyrryd yn gynnar, gyda chymorth yn cael ei gydgysylltu'n well i ddefnyddwyr gwasanaethau. | Tymor canolig (31.03.22) | • Mae gwasanaethau dargyfeirio ar waith ar gyfer menywod ar draws pob un o'r pedair ardal llu heddlu yng Nghymru.<br>• Mae ardaloedd lluoedd yr heddlu De Cymru a Gwent yn archwilio opsiynau ar gyfer bwrw ymlaen â chynllun peilot y Tu Allan i'r Llys gyda'r nod o wella ac ehangu cyfleoedd dargyfeirio mewn perthynas â throseddwyr lefel isel, a throseddwyr dro ar ôl tro.<br>• Mae gan y ffrwd waith Ymyrraeth Gynnar ac Atal gynrychiolaeth o'r pedair ardal llu heddlu a phartneriaid dargyfeirio i alluogi rhannu'r hyn a ddysgwyd rhwng partneriaid statudol, anstatudol a'r sector gwirfoddol.<br>• Cynhaliwyd gweithdy Gwasanaethau Dargyfeiriol ar 11.01.21 i rannu dysg ynglŷn â'r gwahanol fodelau cyflawni, ac i ddechrau archwilio i bolisïau a phrosesau ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar gyda gwasanaethau cymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cydgysylltu'n well. |
| | Datblygu asesiad cyfannol i'w gynnig i fenywod nad ydynt yn gymwys i'w harallgyfeirio cyn mynd i'r llys, ar y cam cynharaf posibl i amlygu'r ffordd orau o gefnogi a bodloni eu hanghenion. | • Cytuno ar asesiad cyfannol anstatudol a fydd yn cael ei gwblhau gyda menywod (sy'n gymwys i arallgyfeirio ai peidio) yn y pwynt cyswllt cyntaf â'r System Cyfiawnder Troseddol.<br>• I gydnabod y gall cam-drin domestig fod yn sbardun i droseddu gan fenywod, rhoddir ystyriaeth i sut y gall gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ddarparu gwasanaethau arbenigol i fenywod sy'n datgelu eu bod yn dioddef Cam-drin Domestig yn y pwynt cyswllt cyntaf â'r System Cyfiawnder Troseddol. | Tymor canolig (31.03.22) | • Mae'r gwaith o gwmpasu asesiadau presennol ar gyfer menywod wedi dechrau. Cynhaliwyd gweithdy gyda darparwyr dargyfeirio ar 11.01.21. Cytunwyd i ddatblygu cyfres o egwyddorion i ategu proses asesu gyfannol sy'n seiliedig ar rywedd a thrawma.<br>• Mae gan ddarparwyr gwasanaethau dargyfeiriol ddealltwriaeth o wasanaethau cam-drin domestig lleol y gallent gyfeirio atynt. Mae llawer o ddarparwyr (e.e. Cymru Ddiogelach, Canolfan Menywod Gogledd Cymru, Pobl) yn darparu gwasanaethau mewnol i ddioddefwyr cam-drin domestig y gall menywod sy'n cael eu dargyfeirio eu defnyddio. |
| | Sefydlu mentrau sy'n rhoi cymorth gwell i ferched, a menywod ifanc o bosibl, sydd mewn perygl sylweddol o droseddu, ac felly'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol | • Ymchwilio i gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid addysg a gwasanaethau perthnasol eraill i amlygu cyfleoedd ar gyfer ymyrryd yn gynnar ac atal.<br>• Archwilio cyfleoedd i gydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'u Cynllun Strategol Creu Cymru Iachach, Hapusach a Thecach 2017-20 i roi dealltwriaeth well o ofidion sy'n wynebu menywod a merched a'r effaith ar lwybr eu bywydau.<br>• Alinio gwaith gyda'r glasbrint cyfiawnder ieuenctid i sicrhau bod anghenion merched a menywod ifanc sydd mewn perygl o droseddu yn cael eu hystyried yn briodol mewn cynlluniau gwasanaeth atal ac ymyrraeth gynnar. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod bregusrwydd cymhleth menywod yn cael eu hadlewyrchu ac yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r dull Rheoli Achosion Uwch sy'n cael ei roi ar brawf gan Gyfiawnder Ieuenctid. | Tymor hir (31.03.23) | • Sefydlu cynllun peilot gyda Dull System Gyfan Braenaru Merched i gryfhau'r gefnogaeth i fenywod ifanc sy'n pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion yn Ne Cymru a Gwent.<br>• Gweithio mewn ymgynghoriad â chanolfan ACE i adolygu ymchwil i effaith ACE ar fenywod er mwyn llywio dealltwriaeth o unrhyw fylchau ymchwil.<br>• Dechrau ymchwil i ddeall yn well anghenion menywod ifanc sy'n pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion yng Nghymru. |
| **Llysoedd a dedfrydu** | Datblygu dealltwriaeth glir o'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd i fenywod sydd ynghlwm â'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, wedi'u cyflenwi gan bartneriaid statudol ac anstatudol (wedi datganoli a heb ddatganoli) yn y gymuned i leihau dedfrydu a remand tymor byr | • Ystyried canfyddiadau o ddadansoddiad tueddiadau dedfrydu presennol (gan gynnwys Imprisonment in Wales: A Fact File Report gan Dr R. Jones, 2018) ledled Cymru i lywio ymgynghoriadau gyda'r llysoedd a'r farnwriaeth, a fydd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o anghenion menywod a'r gwasanaethau sydd ar gael ac, felly, bydd yn codi hyder dedfrydwyr o ran yr opsiynau sydd ar gael.<br>• Gweithio mewn partneriaeth â Chyfiawnder Cymunedol Cymru a'r sector gwirfoddol ehangach i ymgysylltu â llysoedd ledled Cymru i amlygu arfer da a'r opsiynau sydd ar gael yn y gymuned. | Tymor canolig (31.03.22) | • Cyfeiriaduron gwasanaeth menywod lleol a ddatblygwyd gan Gydlynwyr Integreiddio Partneriaeth Braenaru Merched HMPPS.<br>• Mae strategaeth gyfathrebu yn cael ei datblygu i helpu i lywio'r dull o ymgysylltu â dedfrydwyr a nodi cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o anghenion a gwendidau menywod yn y system cyfiawnder troseddol a thynnu sylw at opsiynau dedfrydu cymunedol cadarn. |
| | Datblygu llwybr cyn dedfrydu sy'n mynd i'r afael ag anghenion menywod sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol. | • Sefydlu proses atgyfeirio yn nalfa'r heddlu neu ar remand ar gyfer atgyfeirio menywod nad ydynt yn gymwys i'w hatgyfeirio i gael cymorth cyn dedfrydu.<br>• Defnyddio rhestr wirio'r adroddiad Cyn Dedfrydu a'r offeryn EPF yn gyson yn sefydliadau llys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru.<br>• Sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn y llys i'r rhai sy'n cael eu galw i'r llys. Ystyried sut y gall menywod sy'n cael eu galw'n uniongyrchol i'r gael mynediad at gyfleoedd i fynd i'r afael â'u hanghenion ariannol, gofal plant a chymorth ehangach.<br>• Yng ngoleuni gwaith ymchwil gan Dr Shona Minson (Safeguarding Children when Sentencing Mothers, 2018), archwilio opsiynau ar gyfer sut mae amgylchiadau teuluol yn llywio cynigion dedfrydu, gan gynnwys ystyried Asesiadau o'r Effaith ar Blant (neu Asesiadau o'r Effaith ar Ddibynyddion) cyn dedfrydu. | Tymor canolig (31.03.22) | • Datblygu llyfryn o wasanaethau cymorth i fenywod i dynnu sylw at y cymorth cyn dedfrydu sydd ar gael i fenywod (nad ydynt yn gymwys i gael eu dargyfeirio).<br>• Cyflwynwyd adroddiad cyn dedfrydu ar gyfer menywod ar draws y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru.<br>• Mae asesiadau o'r effaith ar blant yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd. |
| | Sefydlu amrywiaeth o ddewisiadau cymunedol addas yn lle aros yn y ddalfa a remand. | • Ystyried y dewisiadau amgen yn lle'r ddalfa a mechnïaeth i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â llety, camddefnyddio sylweddau ac arian/dyled.<br>• Archwilio opsiynau dedfrydu a mechnïaeth Monitro Electronig, gan gynnwys defnyddio technolegau eraill newydd yn lle carchar tymor byr a remand.<br>• Llywio model a dyluniad Gwasanaethau Prawf ac Ailsefydlu'r Dyfodol mewn perthynas â chymorth a roddir i'r rhai sy'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa yn y tymor byr.<br>• Archwilio'r opsiynau ynghylch defnydd cynyddol o ofynion triniaeth dedfryd gymunedol. | Tymor hir (31.03.23) | • Mae'r argymhelliad hwn wedi'i drosglwyddo i'r maes thema Dedfrydu Cymunedol (gyda ffrwd waith y Llysoedd a Dedfrydu yn canolbwyntio ar hyrwyddo dewisiadau amgen i'r carchar a remand).<br>• Cynhaliwyd ymarfer mapio cychwynnol (o dan ffrwd waith dedfrydu cymunedol) ar ddewisiadau amgen i'r carchar i fenywod, er mwyn helpu i lywio dealltwriaeth o'r ddarpariaeth bresennol, bylchau ac argymhellion.<br>• Mae gwaith ar y gweill i archwilio cyfleoedd i gryfhau'r defnydd o ofynion triniaeth dedfryd gymunedol.<br>• Archwilio opsiynau ynghylch defnyddio monitro electronig (GPS) fel dewis amgen i'r carchar i fenywod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Dedfrydu Cymunedol** | Datblygu model o wasanaethau Preswyl Menywod yng Nghymru sy'n cael eu llywio gan drawma, gan amlygu cwmpas, darparu gwasanaethau a chapasiti posibl. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r potensial ar gyfer dull haenog gyda gofod gwely diogel, cymunedol i roi lle i aros i fenywod sydd ar wahanol gamau o'r system. | • Datblygu Achos Busnes â chostau llawn ar gyfer model gwasanaeth llety 24/7 i fodloni anghenion menywod yng Nghymru, gan gyd-fynd â'r ymrwymiad yn Strategaeth Troseddwyr Benywaidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer 5 canolfan breswyl ac ystyried sut gall rhwydwaith o wasanaethau cymunedol ryngweithio ag unrhyw gyfleusterau preswyl newydd.<br>• Archwilio opsiynau ar gyfer safleoedd prawf i brofi'r Model Tai yn Gyntaf ar gyfer menywod a phrosiect rhannu tai i fenywod lle mae credyd cynhwysol yn cael ei dalu'n uniongyrchol i landlordiaid preifat, gyda chymorth ar gyfer y rhain a staff tai i ddeall anghenion cymhleth menywod yn y system cyfiawnder troseddol ac ymateb iddynt.<br>• Ystyried opsiynau ar gyfer menywod risg uchel gan gynnwys sefydlu Lleoliadau Cymeradwy i fenywod yng Nghymru. | Tymor hir (31.03.23) | • Ar 5 Mai 2020, cawsom gadarnhad y caiff y Ganolfan Breswyl gyntaf i Fenywod ei datblygu yn Ne Cymru. Mae tîm prosiect y Glasbrint yn gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun peilot hwn ac i helpu i sicrhau integreiddio llwyddiannus â'r ddarpariaeth gwasanaethau presennol ac i sefydlu'r effaith ar wasanaethau datganoledig yng Nghymru.<br>• Mae'r gwaith ymgysylltu cychwynnol â'r rhwydwaith Tai yn Gyntaf i fenywod wedi dechrau er mwyn helpu i lywio dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol i fenywod.<br>• Mae gwaith wedi dechrau i archwilio opsiynau safleoedd cymeradwy ar gyfer menywod yng Nghymru. Mae gwaith dichonoldeb yn cael ei wneud mewn perthynas â nifer o eiddo ledled De Cymru. |
| | Datblygu model ar gyfer dulliau dan arweiniad seicoleg, ar sail fformiwleiddio, o gynorthwyo menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol, gan fanteisio ar arbenigedd gwasanaethau presennol ac amlygu cyfleoedd i integreiddio adnoddau er mwyn darparu gwasanaethau uchelgeisiol a hyblyg ar sail tystiolaeth. | • Datblygu achos busnes â chostau llawn ar gyfer model ar sail fformiwleiddio, dan arweiniad seicoleg, sy'n galluogi datblygu perthnasoedd o ansawdd da rhwng menywod yn y system cyfiawnder troseddol ac o leiaf un gweithiwr proffesiynol y gellir ymddiried ynddo.<br>• Ystyried sut y bydd y model hwn yn rhyngweithio ag unrhyw gyfleusterau preswyl newydd.<br>• Ymgysylltu â'r Gwasanaethau Iechyd i ystyried sut y bydd y model hwn yn rhyngweithio â'r ddarpariaeth bresennol a'r fframweithiau gwasanaeth, gan gynnwys asesiad effaith a dadansoddiad o'r galwadau ychwanegol posibl a roddir ar y system. | Tymor canolig (31.03.22) | • Datblygu achos busnes â chostau ar gyfer model ar sail fformiwleiddio, dan arweiniad seicoleg.<br>• Mae model dan arweiniad seicoleg, sy'n cael ei lywio gan ryw a thrawma yn cael ei ddatblygu ac mae'n mynd drwy ymgynghoriad â phartneriaid ar hyn o bryd. |
| | Sefydlu Dull System Gyfan Braenaru Merched wedi'i gomisiynu ar draws De Cymru (De Cymru a Gwent) yn hydref 2019. | • Dyfarnu contract i ddarparwr llwyddiannus gyflenwi Dull System Gyfan Braenaru Merched a model darparu gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar 18-25.<br>• Goruchwylio sut y caiff y contract ei gyflenwi a dechrau'r gwasanaeth.<br>• Penodi Cydgysylltwyr Integreiddio Partneriaeth HMPPS i gynorthwyo datblygiad Dull System Gyfan ar gyfer menywod sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. | Tymor byr (31.12.20) | **CWBLHAWYD**<br>• Dyfarnwyd contract i ddarparu Dull System Gyfan Braenaru Merched a gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 (De Cymru a Gwent) i Future 4 (consortiwm o ddarparwyr sy'n cynnwys G4S, Llamau, Cymru Ddiogelach ac Include) ym mis Gorffennaf 2019. Cafodd y Gwasanaeth ei lansio'n swyddogol ym mis Hydref 2019.<br>• Sefydlwyd strwythur llywodraethu clir i alluogi adolygu a monitro'r broses o weithredu contractau yn effeithiol.<br>• Penododd HMPPS 5 Cydlynydd Integreiddio Partneriaeth Braenaru Merched yn 2019 i gefnogi dull system gyfan o weithio gyda menywod ledled Cymru. |
| | Sefydlu fframwaith hyfforddi ar gyfer staff sy'n gweithio gyda menywod sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol. | • Cydlynwyr Integreiddio Partneriaeth HMPPS yn cwblhau 'hyfforddi'r hyfforddwr' ar gyfer POWER (Canlyniadau Cadarnhaol i Rymuso ac Adsefydlu Menywod) y Weinyddiaeth Gyfiawnder a hyfforddiant a Camau Cynnar Gyda'n Gilydd a throsglwyddo'r ddau ymlaen ynghyd â hyfforddiant perthnasol arall (gan weithio gyda hyfforddwyr eraill) i dimau aml-asiantaeth llinell flaen y bartneriaeth. | Tymor canolig (31.03.22) | • Cwblhaodd Cydlynwyr Integreiddio Partneriaeth HMPPS gwrs hyfforddi'r hyfforddwr ar gyfer POWER yn 2019 a dechreuwyd cyflwyno sesiynau hyfforddi i staff. Bydd yr argymhellion ar gyfer cyflwyno hyfforddiant POWER yn ehangach yn cael eu llywio gan fframwaith hyfforddi Glasbrint.<br>• Cynhaliwyd asesiad o anghenion hyfforddi ar draws gwasanaethau statudol ac anstatudol gan weithio gyda menywod sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol.<br>• Datblygwyd fframwaith hyfforddi yr ymgynghorwyd arno bellach ac a oedd yn cynnwys dadansoddi bylchau a hefyd adolygiad o gynllun peilot ffactorau menywod.<br>• Yr ydym yn awr wrthi'n cyflwyno'r fframwaith hyfforddi hwn ac yr ydym yn trafod pwy fydd yn cael y sesiynau penodol a fydd yn cael eu cyflwyno gan gydweithiwr sydd wedi gweithio ar yr amcan hyfforddi |
| | Sefydlu llwybrau atgyfeirio clir ar gyfer menywod sy'n agored i niwed yn y gymuned er mwyn darparu ymyriadau'n brydlon. | • Trefnu cyfarfodydd Cynhadledd Achos Amlasiantaeth Braenaru Merched ledled Cymru i ddarparu fforymau lle gall sefydliadau rannu gwybodaeth briodol ac amlygu gwasanaethau a all fodloni'r anghenion maen nhw'n gweithio â nhw.<br>• Archwilio opsiynau ar gyfer staff penodedig ar draws gwasanaethau statudol gyda darparwyr sy'n canolbwyntio ar fenywod yn y sector gwirfoddol i ddarparu amgylcheddau diogel sy'n cael eu llywio gan drawma er mwyn galluogi menywod adrodd iddynt. | Tymor canolig (31.03.22) | • Cynadleddau Achos Braenaru Merched yn gweithredu o bell yn Hwlffordd, Caerdydd, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf (Pontypridd a Merthyr Tudful), ac yn fwy diweddar Abertawe. Archwilio cyfle i sefydlu cynhadledd achos newydd yn Wrecsam a Chasnewydd yn 2021. Gwaith ar y gweill i gysoni Cynadleddau Achos â'r model Glasbrint dan arweiniad seicoleg.<br>• Mae staff prawf wedi'u lleoli ar y cyd â staff Cymru Ddiogelach yng Nghaerdydd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Y ddalfa ac ailsefydlu** | Sefydlu llwybr carchardai i gynorthwyo menywod sy'n ailsefydlu yn ôl yng Nghymru ar ôl cwblhau dedfryd o garchar. | • Amlygu pwyntiau cyswllt unigol y ddalfa i gysylltu â'r gwasanaeth Braenaru Merched a sefydlu llwybr atgyfeirio amlasiantaeth, ar gyfer menywod o Gymru sydd yn y carchar cyn ac ar ôl eu rhyddhau.<br>• Ystyried gwaith ymchwil presennol a phellach i ddeall effeithiau ehangach carcharu ar fenywod Cymru, a'r effaith ar gyllidebau datganoledig<br>• Cyswllt â'r llwybr adsefydlu trawslywodraethol presennol ar gyfer menywod.<br>• Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad o wasanaethau digartrefedd i oedolion yn yr ystâd ddiogel a wnaed gan Brifysgol Glyndŵr (2018), comisiynu adolygiad ar y prawf Angen Blaenoriaethol yn Neddf Tai (Cymru) 2014.<br>• Datblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth i sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau i fenywod o Gymru sy'n cwblhau dedfryd o garchar yn Lloegr. | Tymor canolig (31.03.22) | • Nodi addasiad i iaith yr argymhelliad hwn i: Cryfhau'r cynnig ailsefydlu i fenywod o Gymry sy'n gadael y carchar.<br>• Gwasanaeth a gomisiynwyd gan y Dull System Gyfan Braenaru Merched Future 4 yn rhoi cymorth i fenywod sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar yn ôl i ardaloedd De Cymru a Gwent.<br>• Cyhoeddwyd nodyn cyfarwyddyd statudol ym mis Ebrill 2020 - angen 'blaenoriaethol' wedi darfod. Pob troseddwr i gael ei ystyried yn flaenoriaeth.<br>• Gwaith mapio wedi dechrau i adolygu darpariaeth gwasanaethau a ddarperir i fenywod o Gymru sydd yn y carchar yn Lloegr.<br>• Mae Angen Blaenoriaethol wedi'i ymestyn dros dro i gynnwys unigolion sy'n cyflwyno eu hunain fel unigolion digartref o ganlyniad i'r pandemig. Bydd y gwerthusiad Angen Blaenoriaethol a gyhoeddwyd yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith i bontio i ddull Ailgartrefu Cyflym. |
| | Gweithio gyda phartneriaid iechyd i sicrhau bod anghenion iechyd menywod o Gymru'n cael eu diwallu pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa. | • Gweithio gyda phartneriaid iechyd i sicrhau bod anghenion iechyd menywod o Gymru'n cael eu diwallu pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa.<br>• Alinio'r gwaith a ddatblygwyd dan y Rhaglen Menywod mewn Cyfiawnder (gan gynnwys Dull System Gyfan Braenaru Merched) gyda'r gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi trwy'r Llwybr Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr.<br>• Ystyried anghenion iechyd meddwl arbenigol mewn unrhyw fodelau cymorth cymunedol 'siop un stop' a ddatblygir ar gyfer menywod mewn system cyfiawnder troseddol | Tymor canolig (31.03.22) | • Mae'r Llwybr Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr yn cyd-fynd â Braenaru Merched, ac fe'i cynrychiolir yng Nghynadleddau Achos Braenaru Merched. |
| | Sefydlu gwasanaethau i helpu menywod o Gymru sydd yn y carchar i wella a chynnal eu cysylltiadau â'u plant a'u teuluoedd. | • Cynnal adolygiad o adroddiad yr Arglwydd Farmer a edrychodd ar anghenion menywod a'u plant/teuluoedd (ar ôl ei gyhoeddi) ac ymgorffori argymhellion perthnasol yng nghynllun rhaglen Menywod mewn Cyfiawnder.<br>• Archwilio opsiynau ariannu ar gyfer prosiectau/gwasanaethau sy'n cynorthwyo menywod i gynnal eu cysylltiadau â'u plant a'u teuluoedd (lle bo'n briodol) wrth gwblhau dedfryd o garchar. | Tymor byr (31.12.20) | • Nodwch yr addasiad i iaith yr argymhelliad hwn i: Cryfhau gwasanaethau i fenywod o Gymru yn y carchar er mwyn gwella a chynnal cysylltiadau â'u plant a'u teuluoedd.<br>• Adolygiad o argymhellion yr Arglwydd Farmer wedi'i gynnal ym mhob ffrwd waith Glasbrint.<br>• Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru a HMPPS i ailsefydlu'r prosiect Ymweld â Mam yn 2021 i gryfhau'r cysylltiadau rhwng menywod yn y carchar a'u teuluoedd. Mae gwaith ar y gweill i lywio dyluniad y model gweithredu er mwyn gallu cyflawni'n effeithiol yng nghyd-destun COVID. |
| **Ymchwil a gwerthuso** (Ffrwd waith ar y cyd yw hon ar draws y ddau Glasbrint) | Datblygu dealltwriaeth a sail dystiolaeth ynghylch model y Dull System Gyfan. | • Creu cynllun er mwyn gwerthuso model cyflenwi gwasanaethau Dull System Gyfan Braenaru Merched.<br>• Cynnal gwerthusiad o Fodel y Dull y System Gyfan ar draws De Cymru (De Cymru a Gwent). | Tymor canolig (31.12.21) | • Gwerthusiad o Ddull System Gyfan Braenaru Merched (a gwasanaeth 18-25) ar gael ym mis Chwefror 2021. Disgwylir yr adroddiad terfynol ym mis Hydref 2021. |
| | Deall anghenion penodol a bregusrwydd troseddwyr benywaidd ledled Cymru yn well. | • Gweithio gyda Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd i ymchwilio i effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar fenywod yng Nghymru a'r ffordd orau o fodloni anghenion cysylltiedig trwy wasanaethau wedi'u llywio gan drawma.<br>• Datblygu dealltwriaeth ynghylch ymddygiad troseddu carfannau penodol o fenywod (gan gynnwys canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth y 'Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru' 2018-23) i lywio sut mae gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u cyflenwi.<br>• Ystyried opsiynau ar gyfer cynllunio a chyflwyno gwerthusiad sy'n cymharu modelau arallgyfeirio ar draws Cymru a chynorthwyo monitro parhaus.<br>• Gweithio gyda Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi a HMPPS i ddeall proffil trosedd a nodweddion troseddau menywod sy'n cael eu dedfrydu i garchar am dymor byr. | Tymor canolig (31.03.22) | • Gweithio mewn ymgynghoriad â chanolfan ACE i adolygu ymchwil i effaith ACE ar fenywod er mwyn llywio dealltwriaeth o'r sylfaen dystiolaeth gyfredol ac unrhyw fylchau ymchwil.<br>• Cynhyrchwyd Dadansoddiad Proffil Troseddwyr Benywaidd ym mis Mai 2020. Cynhyrchwyd ffeithluniau ym mis Rhagfyr 2020. Gwaith o ddatblygu adroddiad rheolaidd gan Bartneriaeth Menywod Cymru Gyfan ar y gweill i wella dealltwriaeth o risgiau, anghenion, gwendidau a chymhlethdodau menywod yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru.<br>• Mae prosiect ymchwil ar y gweill ar hyn o bryd i adolygu profiadau menywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y system cyfiawnder troseddol, a disgwylir adroddiad ar y prosiect ym mis Mai 2021.<br>• Cynhaliwyd dadansoddiad cynnar i adolygu data HMPPS a HMCTS ar y cyd ar y nifer o fenywod a ddedfrydwyd i gyfnodau byr yn y carchar yng Nghymru.<br>• Disgwylir i Asesiad Gwerthuso'r Glasbrintiau ar gyfer Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid ddechrau yn 2021.<br>• Amlygir gweithgarwch Ymchwil a Gwerthuso ar Gyfiawnder Ieuenctid yn y cynllun Gweithredu Cyfiawnder Ieuenctid. |